

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r: Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

**Dyddiad y cyfarfod: 22.1.2025**

**Teitl: Trosolwg o'r materion ariannol yn ystod y flwyddyn**

**Pwrpas yr adroddiad: Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r materion ariannol allweddol yn ystod y flwyddyn**

## **Cyflwyniad**

Roedd y broses o bennu Cyllideb 24/25 yn un heriol ac roedd yn cynnwys cymeradwyo tua 70 o gynigion i gwtogi'r Gyllideb a oedd yn dod i gyfanswm o tua £5.8m. Mae'r cynnydd wrth gyflawni'r gostyngiadau yma yn y gyllideb yn cael ei adolygu a'i fonitro gan y Grŵp Arweiniol ar ddiwedd pob mis.

Yn ystod y flwyddyn y bwriad yw darparu'r wybodaeth ganlynol i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn unigol:

- Y sefyllfa ariannol chwarterol ddiweddaraf fel yr adroddwyd i'r Cabinet, (i gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf o ran statws BRAG ar ostyngiadau yn y gyllideb 24/25)
- Bydd hyn yn cynnwys yr adroddiadau Monitro Refeniw a Chyfalaf.

Bydd y wybodaeth hon yn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar y materion ariannol sy'n berthnasol i'r meysydd Gwasanaeth sy'n dod o fewn ei gylch gwaith. Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gall y Pwyllgor ddewis bwrw golwg ar unrhyw ran o'r Gyllideb sydd o fewn ei gylch gwaith a hynny drwy'r Flaenraglen Waith.

## **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

Oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau?

Amherthnasol – ystyriwyd y rhain, lle'r oeddent yn berthnasol, fel rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb.

## **Argymhelliad (Argymhellion):**

**Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn craffu ar y wybodaeth a ddarperir fel y mae'n ei ystyried yn briodol ac yn berthnasol i'r meysydd o fewn ei gylch gwaith.**

## **Rhesymau dros y penderfyniad:**

Craffu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

## **Atodiadau:**

Atodiad 1: Adroddiad Monitro Ariannol Refeniw Rheoladwy chwarterol diweddaraf

Atodiad 2: Adroddiad Monitro Ariannol Cyfalaf chwarterol diweddaraf

**Enw Cyswllt:** Duncan Hall - Rheolwr Corfforaethol: Cyllid a Chaffael  
**Dyddiad yr Adroddiad:** 10.12.2024